OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1607

# Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## RHAN 1

### Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Ac eithrio fel y'i darperir ym mharagraff (3), daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(3) Daw rheoliad 9 i rym yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Prif Reoliadau" yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd Ymwelwyr Tramor) 1989(**1**).

(**1**) O.S. 1989/306, a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/614; O.S. 2004/1433 (Cy. 146); O.S. 2009/1824 (Cy. 165); O.S. 2009/3005 (Cy. 264); O.S. 2010/730 (Cy. 71); O.S. 2010/927 (Cy. 94); O.S. 2011/1043; O.S. 2011/2906 (Cy. 310), O.S. 2012/1809; O.S. 2014/1622 (Cy. 166); ac O.S. 2015/1985; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.